## MAIR ELVET THOMAS yn adrodd stori fawr

# BLWYDDYN YN LLANOFER

YN 1935, ym Mangor, bu farw, yn 94 oed, Mrs Mostyn Jones, gweddw'r Parchg J. Mostyn Jones, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ym Mostyn a Bethesda, yn Efrog Newydd ac Ohio, ac ym Mangor. Fe'i ganed yn 1841, yn ferch i William Davies, Wern, Mostyn, asiant stad yr Arglwydd Mostyn. Addysgwyd hi yn Parkgate, Swydd Gaer, a daeth adref i gynorthwyo ei thad yn swyddfa'r stad.

Pan oedd yn 19 oed daeth i lawr i Blas Llanofer er mwyn dysgu sut yr oedd lle felly yn cael ei redeg ac o'r dechrau ym Medi 1861 tan fis Hydref 1862 cadwodd ddyddiadur yn Saesneg (yn ôl ffasiwn y dyddiau hynny).

Rhaid cofio fod stad Llanofer yn unigryw yn ei dydd oherwydd ei pherchenogion, Arglwydd ac Arglwyddes Llanofer, a Chymreictod y lle. Llyfryn bychan ydyw'r dyddiadur, hynod o ddiddorol o safbwynt merch ifanc ddeallus iawn a dwys, gymdeithasgar a sylwgar. Gallai werthfawrogi'r difrif a'r digrif.

Yr oedd tad Margaret yn adnabod Arglwydd Llanofer a chredaf ei fod yn falch i ddod gyda'i ferch er mwyn adnewyddu cyfeillgarwch ag ef a gweld y stad. I lawr â nhw, felly, ar y trên gan newid yng Nghaer ac wedyn i lawr i'r Fenni. Yr oedd tua phedair milltir eto ac am eu bod wedi cyrraedd yn gynnar aethant mewn 'fly' weddill y daith.

Wrth fynd trwy'r Porth Mawr nid sylwi ar y pennill a wnaeth Margaret ond ar y menywod a sgubai'r rhodfeydd, â hetiau ar eu pennau. Yr oedd te yn barod iddynt a merch yn gweini arnynt mewn gwisg Gymreig, gwisg holl forynion y lle.

Cyn dadbacio cafodd Margaret gyfle i fynd am dro i weld y tiroedd o amgylch y plas. Rhyfeddodd at lendid yr holl le, ar lesni a llyfnder y lawntiau, ar ffynnon yn tasgu dŵr i fyny ac ar lyn mawr gydag ynysoedd arno ar gyfer yr elyrch, y gwyddau a'r hwyaid.

Yr oedd popeth mor drwsiadus, y gerddi a'r ardd lysiau, a dim chwyn hyd yn oed ar gyfyl y llwybrau.

* * *

NID MORWYN yn y plas ydoedd Margaret felly. Cyn iddi fynd buasai gohebiaeth rhyngddi hi â'r Arglwyddes er boddhad i'r ddwy a chawsai ganiatâd gan ei rhieni i fynd ar Fedi'r 19eg.

Bu llawer o baratoi ar ei chyfer oherwydd ni ddeuai adref un waith na chael gweld ei rhieni na gweddill y teulu. Tipyn o fenter, dybiwn i, y dyddiau hynny pan ddibynnai ar y post i gael newyddion.

Cyn iddi ymadael fore'r 19eg o Fedi cynhaliwyd gwasanaeth teuluol ac erfyniodd hi ar ei thad nefol i'w harwain ac i'w chadw rhag pob temtasiwn a pherygl.

Nid oedd raid iddi hi nac i'w rhieni ofidio. Cafodd bob gofal yn Llanofer a chyfle i wneud pethau ac i fynd i leoedd na freuddwydiasai amdanynt. (Yr oedd gennyf erthygl ar Nadolig 1861 yno yn *y Faner*, Rhagfyr 23-30, 1988, seiliedig ar y dyddiadur.)

Yr un diwrnod ag y cyrhaeddodd Margaret penodwyd Mr Rees, gŵr ifanc, yn Ddarllenwr yr Ysgrythurau, a daeth y ddau i adnabod ei gilydd. Clywodd delynor y teulu, Mr Griffiths, yn canu'r delyn gyda merch ifanc yn sefyll yn ei ymyl yn canu 'o mor felys a naturiol'.

Y mae'n amlwg fel yr eir ymlaen i ddarllen y dyddiadur fod Margaret yn hoff iawn o gerddoriaeth.

Ar yr 21ain bu hi trwy'r dydd yn yr ystafell waith. Amser te fe'i galwyd i ddod i bresenoldeb yr Arglwyddes – 'Her Ladyship' – fel y galwai Margaret hi. Bu raid i Margaret aros ychydig cyn iddi ddod i'r ystafell frecwast.

Gofynnwyd llawer o gwestiynau ganddi nad oedd Margaret wedi eu disgwyl ac yn ei swildod criodd a chafodd fynd ymaith yn garedig iawn ar ôl i'r Arglwyddes edrych arni'n fanwl. Mae'n amlwg ei bod am gadw o hyd braich gan mai hi oedd y Feistres.

Dyma ddisgrifiad Margaret o'r modd yr oedd wedi gwisgo. 'Her dress was rather peculiar on the whole. She had on a stuff skirt tucked up all around, a black velvet jacket, a puce bow attached to her collar, no cap as I had anticipated, black stockings and little shoes with ribbon bows.'

* * *

ARHOSODD William Davies ychydig o ddyddiau a chan ei bod yn ddydd Sul drannoeth iddynt gyrraedd, aeth ef a'i ferch i Gapel 'Ed' yn y bore gan gerdded yno fwy na thair milltir trwy'r coed ac ar hyd llwybr digon garw. Capel bychan iawn ydoedd a fynychodd Margaret yn aml.

Wedi cinio aethant i'r Eglwys a ymddangosai bron yn llawn. Daethai bron holl weision a morynion y Plas yno, y morynion a'r Arglwyddes yn gwisgo hetiau tal. Yn yr hwyr bu'r ddau yng nghapel y pentref.

Y noson honno ar ôl swper aeth aelodau côr y Plas i fyny i'r oriel yn y neuadd flaen i ganu tri neu bedwar emyn dethol. Ni welsai Margaret olygfa mor wych ac ni chlywsai leisiau mor soniarus yn adsain trwy'r lle tawel.

Tua deg o'r gloch canodd cloch i'w galw i gyd i'r gwasanaeth teuluol a cherddodd pob gwas a morwyn i mewn yn eu trefn i wrando ar eu meistres yn darllen yr hwyrol weddïau.

Yr oedd yn fis Hydref cyn hir a'r cynhaeaf wedi ei gasglu dan do. Felly rhaid oedd mynd i addurno'r Eglwys ar gyfer y gwasanaethau diolchgarwch. Dechreuodd y rheini nos Sadwrn ac yr oedd rhagor o bobl yno nag a ddisgwyliasai Margaret. Yr oedd hi eto yng ngwasanaethau'r Sul. Yn wir tra bu yn Llanofer prin y collodd un gwasanaeth ar y Sul.

* * *

AM I MI sôn am y Nadolig yno yn y *Faner* ni soniaf am y gweithgareddau hynny yma. Felly, y dathlu nesaf ydyw Dydd Calan. Paratowyd baneri bychain ar hyd y dyddiau cyn hynny i addurno'r bwrdd brecwast. Câi'r baneri hyn eu gwanu i afalau wedi eu haddurno â cheirch a blodau. Ar y baneri yr oedd arwyddeiriau pwrpasol. Mae'n debyg bod un i bob un.

Drannoeth gwnaeth y staff 'Marri (sic) Lwyd' ond ni ddangoswyd y pen ceffyl tan y degfed. Yn y ddrama cymerai un ran y ceffyl ac un arall yr ostler. Yr oedd hefyd 'Punch and Judy'.

Wedi te canwyd y delyn o flaen ffenestr y llyfrgell er mwyn tynnu sylw'r Arglwydd at y ddrama a oedd yn mynd ymlaen. Yr oedd y chwarae hwn yn hollol ddieithr i Margaret ac fe'i câi yn ddifyr dros ben.

Bu Maria Jane Williams a'i chwaer yn y Plas dros y dathliadau a theimlai Margaret yn ddiflas dros ben wedi iddynt ymadael.

Daeth Margaret i adnabod y staff yn dda ymhen dim amser gan eu bod mor groesawgar a hithau'n barod i gymysgu â nhw. Cafodd ystafell ar lawr uchaf y tŷ a gwnaeth gyfaill arbennig o Elizabeth Manuel a oedd yr un oedran â hi. Cyfarfu hefyd â gweddw Ieuan Gwynedd a oedd yn ysgrifennydd i'r Arglwyddes.

Pan ddisgwylid cwmni yr oedd prysurdeb mawr, a pharatoi bwyd gan Mr. Howells y cogydd. Gallai ef ddysgu 'ornamental work' iddi ond yr Arglwyddes a'i hyfforddai mewn 'management'.

Pan fyddai 'dinner party' byddai dawnsio Cymreig ar ôl cinio gan ddawnswyr yr oedd y mwyafrif ohonynt yn gweithio yn y Plas, y menywod yn rheolaidd yn y wisg Gymreig.

Enwir gan Margaret y 'Welsh reel' a dawns y clocswyr gyda chanhwyllau. Un tro y prif westai oedd gŵr o'r enw 'Count Neselrow'.

Ddiwedd Hydref 'roedd cyrddau diolchgarwch yn yr eglwys a addurnwyd ar gyfer y gwasanaethau, nos Sadwrn yn ogystal â rhai'r Sul. Bu Margaret ymhob un. Sonia hefyd am ei hymweliadau â thai yr ardal pan gynhelid y 'Society' yno gan y Methodistiaid.

* * *

DDIWEDD Rhagfyr galwodd yr Arglwyddes arni i ddod i'w gweld yn ei 'study'. Gofynnodd iddi a hoffai fynd i Ddinbych-y-Pysgod gyda Miss Lucas. Ni allai Margaret roi ateb y naill ffordd na'r llall heb ymgynghori â'i rhieni. Dyna'r tro cyntaf i'r Arglwyddes sôn am Ddinbych-y-Pysgod.

Ar yr 11eg o fis Chwefror cymerwyd yr Arglwyddes yn sâl ond daeth Arglwydd ac Arglwyddes Tredegyr a'u merch yno i 'dinner party' nos drannoeth. Y tro hwn bu canu i gyfeiliant y delyn ar oriel y neuadd fawr a dawnsio, rhai o'r staff yn cyfansoddi'r setiau, a phob merch yn ei gwisg Gymreig.

'All looked very rustic' ebe'r dyddiadur. Ar y 14eg o'r un mis yr oedd 'Hunt Ball' yn y Fenni a'r teulu'n mynd yno yn y cerbydau.

Yn y cyfamser yr oedd yr Arglwyddes dan ofal meddyg o Lundain o'r enw Dr. Cameron, ac am fod Margaret hefyd yn sâl cafodd ddod ati hithau. Mae'n amlwg, felly, fod ei meistres â gofal mawr amdani. Cymeradwyodd y meddyg 'newid aer' i'r Arglwyddes ac am wythnosau hanes ei hymweliad â Dinbych-y-Pysgod a leinw dudalennau dyddiadur Margaret. Nid oedd neb o'r staff am fynd a gwnaent bob esgus dros beidio â mynd. Bygythient gael deiseb yn erbyn mynd.

Yng ngeiriau Margaret ofnent 'they should be very much confined and have no time to enjoy nor see anything about the place'. Ond i'r gwrthwyneb y bu ac ni chofnoda'r dyddiadur un gŵyn.

* * *

AR DDYDD Gwyl Ddewi gwisgai pob un genhinen a chafwyd cinio ardderchog. Ni allodd yr Arglwyddes arholi'r plant yn ôl ei harfer am ei bod yn sâl. Ond erbyn Mawrth yr 8fed yr oedd yn ddigon da i fynd allan yn ei cherbyd am y tro cyntaf, arwydd sicr i bawb y byddai'n mynd cyn bo hir i Ddinbych-y-Pysgod. A hynny a fu ar y 18fed.

*i dud. 11*